Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Education and Public Services Group

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd
y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CAERDYDD CF99 1NA

27 Chwefror 2018

Annwyl Mr Ramsay

**DIOGELWCH CYMUNEDOL YNG NGHYMRU**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 30 Ionawr 2018 yn dilyn ystyriaeth y Pwyllgor o Adolygiad Gweithio gyda'n Gilydd i greu Cymunedau Mwy Diogel Llywodraeth Cymru a'r adroddiad terfynol fis diwethaf.

Fel y gwyddoch, cafodd Grŵp Trosolwg ei sefydlu y llynedd sy'n cynnwys rhanddeiliaid allweddol o asiantaethau datganoledig a heb eu datganoli, ac adrannau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Bwriad y grŵp hwn yw llywio'r adolygiad. Cynhaliwyd cyfarfod rhwng Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus a'r grŵp fis diwethaf i ystyried y ffordd orau o fynd i'r afael â'r camau gweithredu a'r ymrwymiadau amrywiol a gafodd eu hamlinellu yn y rhaglen Cymunedau Mwy Diogel (fel y disgrifir ar dudalennau 83-86).

Bellach, mae'r grŵp yn datblygu cynllun gweithredu ar y cyd ac yn ystyried amserlenni arfaethedig ar gyfer rhoi'r rhaglen ar waith. Bydd rhai agweddau o'r rhaglen yn cael eu cyflawni yn y tymor byr, a bydd eraill yn ddarnau o waith mwy hirdymor. Fodd bynnag, mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi herio'r grŵp i ddarparu cynllun gweithredu clir sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i gymunedau lleol, a hynny "yn gyflym".

Byddaf yn hapus i anfon copi o'r cynllun gweithredu atoch chi, ynghyd ag amserlenni manwl, pan fyddant wedi'u cadarnhau gan y Grŵp Goruchwylio a'r Ysgrifennydd Cabinet.

Mae'r trydydd cam gweithredu y cytunwyd arno, sef 'datblygu perthynas a dull strategol gwahanol gyda phartneriaid diogelwch cymunedol annatganoledig sy'n sefydlu rôl arwain



Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 03000 250913
reg.kilpatrick@wales.gsi.gov.uk
Gwefan ● website: www.wales.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

fwy effeithiol i Lywodraeth Cymru', eisoes ar waith. Er enghraifft, mae hyn cael ei ddatblygu bellach drwy: y penderfyniad i barhau â'r Grŵp Trosolwg gan gynnwys Ysgrifennydd y Cabinet yn uniongyrchol; sefydlu Grŵp Strategaeth Cyfiawnder yng Nghymru gan ddwyn ynghyd swyddogion Llywodraeth Cymru a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder; a rhoi ffocws o'r newydd i'r Grŵp Cynghori'r Swyddfa Gartref gyda thrafodaethau cynnar am bolisi rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

Mae'r Grŵp Trosolwg hefyd wedi cychwyn archwiliad cyflym o'r holl fyrddau strategol presennol sy'n gyfrifol am amrywiaeth o elfennau thematig diogelwch cymunedol er mwyn rhesymoli a symleiddio'r dirwedd lle bo hynny'n bosibl. Mae hynny'n cynnwys, er enghraifft, dilyn model treialon llwyddiannus diweddar o gyfarfodydd 'cefn wrth gefn' Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan a Bwrdd Rheoli Integredig Troseddwyr Cymru.

Mae'r trydydd cam gweithredu hwn hefyd yn ymwneud yn agos â'r cyntaf gan y bydd gweithio gyda'r Comisiwn Cyfiawnder yn helpu i ddatblygu'r berthynas wahanol honno, ynghyd â'r dull strategol. I'r perwyl hwnnw, bydd Llywodraeth Cymru yn mynd ati maes o law i: amlinellu'r canlyniadau y byddai'n dymuno eu gweld gan y Comisiwn; gofyn i'r Comisiwn edrych ar sut i gyflawni dull mwy integredig ac ataliol o fynd i'r afael â chyfiawnder, gan dynnu ar y blaenoriaethau a'r ffyrdd o weithio a nodir yn Ffyniant i Bawb; a gwahodd y Comisiwn i gynghori ar gamau gweithredu penodol a fyddai'n hyrwyddo canlyniadau gwell ar gyfer y tymor hwy.

Fel y gwyddoch, bydd yr amserlen ar gyfer gwaith y Comisiwn yn para tan dymor yr hydref flwyddyn nesaf pan fydd disgwyl iddo adrodd ar ei ganfyddiadau a'i argymhellion.

Gallaf gadarnhau nad yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu datblygu strategaeth genedlaethol bendant ar gyfer diogelwch cymunedol yng Nghymru, fel yr argymhellwyd yn flaenorol gan yr Archwilydd Cyffredinol. Yn wir, fe welwch fod ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhelliad hwn ar gael yn ein hadroddiad ar dudalen 54:

> "Fodd bynnag, mae’r fframwaith cynllunio strategol a ddisgrifir yn y tri argymhelliad cyntaf yn adroddiad 2016 yn hynod annhebygol o gyflawni’r cynnydd sy’n ofynnol ac – yn waeth byth – ni fyddai’n ateb y gofynion o ran trefniadau partneriaeth integredig a chydweithredol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus a gyfarwyddir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol."

Mae Deddf 2015 yn gofyn am gynllunio mwy integredig a chydweithredol sy'n berthnasol i'r saith nod llesiant, gan gydnabod rhyngddibyniaethau fel a ddangosir yn strategaeth *Ffyniant i Bawb* Llywodraeth Cymru. Ein dadl yw bod 'strategaeth diogelwch cymunedol' cenedlaethol annibynnol yn mynd yn groes i'r ffordd fwy cydweithredol ac integredig hon o weithio, a bod perygl y byddai'n ynysu diogelwch cymunedol drwy atgyfnerthu meddylfryd seilo sydd wedi dyddio.

Rydym yn credu ei bod yn bwysicach sefydlu ein gweledigaeth ar y cyd ar gyfer diogelwch cymunedol yng Nghymru – fel sy'n cael ei nodi ar dudalen 2 ein hadroddiad – a chefnogi'r weledigaeth hon i gael ei gweithredu ar lefel leol drwy ddarparu canllawiau ac

arweinyddiaeth fwy effeithiol, gan gynnwys gweithio'n agosach gyda gweithredwyr heb eu datganoli i liniaru effeithiau negyddol gweithredu polisi trosedd a chyfiawnder heb eu datganoli o fewn tirwedd lle mae'r meysydd datganoledig yn cynyddu o hyd.

Nid yw'r maes gwrthderfysgaeth wedi'i ddatganoli, ond er mwyn gweithredu CONTEST yn llwyddiannus, sef strategaeth wrthderfysgaeth Llywodraeth y DU, bydd angen i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU gydweithio a chydweithredu. Nod CONTEST yw lleihau'r risg i'r DU ac i fuddion y DU dramor rhag terfysgaeth fel bod modd i bobl fyw eu bywydau yn rhydd a chyda hyder.

Caiff CONTEST ei drefnu o amgylch pedwar ffrwd gwaith: Erlid – i stopio ymosodiadau terfysgol; Atal – i stopio pobl rhag mynd yn derfysgwyr neu gefnogi terfysgaeth; Amddiffyn – i gryfhau ein hamddiffyniad rhag ymosodiad terfysgol; Paratoi – i leihau effaith ymosodiad terfysgol.

Yng Nghymru, mae gennym strwythurau wedi'u hen sefydlu ar gyfer CONTEST ac rydym yn gweithio'n agos gyda'r Swyddfa Gartref ar lefel Cymru a'r DU. Mae ein Bwrdd CONTEST ac Eithafiaeth Cymru wedi'i sefydlu i roi arweinyddiaeth strategol ar CONTEST yng Nghymru. Mae'n cael ei gadeirio ar y cyd ar lefel uwch gan Lywodraeth Cymru ac Uned Eithafiaeth a Gwrthderfysgaeth Cymru. Mae uwch-swyddogion y Swyddfa Gartref yn cefnogi'r Bwrdd, ac mae'r aelodau'n cynnwys cadeiryddion y byrddau rhanbarthol ledled Cymru yn ogystal ag ystod eang o bartneriaid allweddol.

Mae'r Bwrdd yn ystyried pryd i weithredu'r Ddyletswydd Atal a gyflwynwyd o dan Ddeddf Gwrthderfysgaeth 2015. Mae'r Ddyletswydd yn gofyn i nifer o 'awdurdodau penodol', gan gynnwys awdurdodau datganoledig, ystyried yr angen i atal pobl rhag cael eu denu at derfysgaeth. Mae cyngor, canllawiau a hyfforddiant ar gael i'r awdurdodau sy'n cael eu cynnwys yn y ddyletswydd, gan gynnwys y maes iechyd, awdurdodau lleol ac addysg. Yna, mae cymorth ar gael yn wirfoddol drwy'r Rhaglen Channel i'r bobl hynny sydd mewn perygl o gael eu radicaleiddio. Wrth gwrs, rydym yn cydnabod nad yw'n bosibl cael gwared ar y perygl o derfysgaeth yn gyfan gwbl. Mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo rhaglen uchelgeisiol o hyfforddiant ac ymarferion gwrthderfysgaeth. Bwriad y rhaglen yw lleihau effeithiau digwyddiad terfysgol os byddai un yn digwydd yng Nghymru. Bydd Bwrdd Cymru yn parhau i ystyried a herio unrhyw risg fydd yn codi ac wrth wneud hynny, bydd yn helpu i sicrhau diogelwch dinasyddion a chymunedau yng Nghymru.

Yn ogystal â darparu copi o'r cynllun gweithredu rhaglen Cymunedau Mwy Diogel a'r amserlenni, pan fyddant ar gael, byddaf yn fwy na bodlon rhoi diweddariad i chi ar y cynnydd yn hwyrach eleni.

Yn gywir

**REG KILPATRICK**
Cyfarwyddwr Llywodraeth Leol /
Director for Local Government